Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Is-ddeddfwriaeth: 30 Tachwedd 2005

Ddydd Mercher 30 Tachwedd 2005, bu'r Pwyllgor yn ystyried y pedwar darn o is-ddeddfwriaeth isod. Ceir cofnod gair-am-air o'r cyfarfod ac mae i'w weld ar wefan y Pwyllgor.

Rheoliadau Addysg (Penderfynu ar Drefniadau Derbyn) (Cymru) 2006 [ELL 26-04]

Rheoliadau Addysg (Gwrthwynebiadau i Drefniadau Derbyn) (Cymru) 2006 [ELL 27-04]

Rheoliadau Addysg (Amrywio Trefniadau Derbyn) (Cymru) 2006 [ELL 28-04]

Rheoliadau Ysgolion Newydd (Derbyniadau) (Cymru) 2006 [ELL 30-04]

Ar gyfer pob Gorchymyn drafft, darparodd y Gweinidog gopi o'r rheoliadau drafft, memorandwm esboniadol, arfarniad rheoliadol a rhestr o'r rhai yr ymgynghorwyd â nhw.

Mae'r pedair set o reoliadau yn rhan o becyn o newidiadau sy'n ddibynnol ar ei gilydd ac sy'n diweddaru mesurau cyfredol yng ngoleuni newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol. Isod ceir rhagor o wybodaeth am bob set o reoliadau:

ELL26-04

Mae'r Rheoliadau hyn yn amlinellu'r weithdrefn y dylai awdurdodau derbyn ei dilyn wrth benderfynu ar eu trefniadau derbyn, gan gynnwys y broses ymgynghori a hysbysu. Maent yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Addysg (Penderfynu ar Drefniadau Derbyn) 1999 i adlewyrchu diwygiadau a wnaed i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (Deddf 1998) gan Ddeddf Addysg 2002 (Deddf 2002).

ELL 27-04

Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi'r amgylchiadau lle y gellir cyfeirio gwrthwynebiadau, a phenderfynu arnynt, ynghyd â'r ffordd y dylid gweithredu unrhyw benderfyniadau. Mae'r Rheoliadau yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Addysg (Gwrthwynebiadau i Drefniadau Derbyn) 1999 i adlewyrchu diwygiadau a wnaed i Ddeddf 1998 gan Ddeddf 2002.

ELL 28-04

Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi y gall awdurdod derbyn ysgol (y corff llywodraethu ar gyfer ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol a gynorthwyir; yr AALl ar gyfer ysgol gymunedol neu ysgol wirfoddol a reolir) amrywio'r trefniadau derbyn y mae wedi'u gwneud ar gyfer blwyddyn ysgol benodol drwy newid y nifer derbyn a bennwyd ganddo. Gall wneud hynny os yw amrywiad o'r fath yn angenrheidiol er mwyn gweithredu cynigion statudol cymeradwy ar gyfer aildrefnu ysgol a gyhoeddwyd o dan adran 28 Deddf 1998.

ELL 30-04

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth sy'n ymwneud â phenderfynu ar drefniadau derbyn cychwynnol ysgolion newydd. Maent yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Ysgolion Newydd (Derbyniadau) 1999 i adlewyrchu'r diwygiadau a wnaed i Ddeddf 1998 gan Ddeddf 2002.

Trafodaeth

Wrth drafod, codwyd y materion isod:

- Roedd y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn pryderu nad oedd y ddogfen ymgynghori yn nodi pwy fyddai'n monitro ac yn archwilio'r broses trefniadau derbyn. Fodd bynnag, câi rhagor o ganllawiau ar y mater hwn eu cynnwys mewn Cod Ymarfer diwygiedig ar dderbyn i ysgolion y bwriedir ei gyhoeddi yn 2006.

- Cafwyd trafodaeth am adnoddau ysgolion sy'n derbyn mwy o ddisgyblion na'u nifer derbyn cychwynnol oherwydd apelau llwyddiannus, ond lle y ceir lleoedd gwag oherwydd bod disgyblion eraill yn tynnu'n ôl yn ddiweddarach. Nid oedd modd egluro'r sefyllfa heb gael rhagor o fanylion am yr ysgol o dan sylw. Byddai'r Aelod a gododd y mater yn ystyried ysgrifennu at y Gweinidog ynghylch yr achos penodol a arweiniodd at y drafodaeth.

Penderfyniad y Pwyllgor

Ni chynigiwyd unrhyw welliannau ac argymhellodd y Pwyllgor y dylid cymeradwyo'r rheoliadau drafft.



Cadeirydd y Pwyllgor